## Gofynion Hanfodol

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl y swydd:** | Cynorthwyydd Addysgu (Lefel 2) | **Gradd Blaenau Gwent:** | Graddfa 4 |

| | |
|---|---|
| **Ysgol:** | Ysgol Arbennig |
| **Rheolwr Llinell:** | Uwch Athro, Athro Dosbarth, Uwch Gynorthwyydd Addysgu |
| **Cyfrifoldeb goruchwylio:** | Dim, ar wahân i gynorthwyo aelodau newydd o staff i ymgyfarwyddo â'r gwaith. |

### *Addysg a Phrofiad*

a) Sgiliau rhifedd a llythrennedd da.

b) Profiad o weithio gyda grwpiau oedran perthnasol o fewn amgylchedd dysgu.

c) Profiad o weithio gyda phlant ag anghenion ychwanegol cymhleth a dwys.

ch) Profiad o waith clerigol/gweinyddol cyffredinol.

d) Profiad mewn disgyblaeth berthnasol.

dd) NVQ Lefel 2 mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant neu CACHE Lefel 2 (Gofal Plant ac Addysg) neu gyfwerth.

### *Gwybodaeth, Sgiliau a Galluoedd*

a) Y gallu i weithio'n dda fel rhan o dîm amlddisgyblaethol.

b) Dealltwriaeth o rolau a chyfrifoldebau dosbarth.

c) Gallu defnyddio TGCh sylfaenol gan gynnwys offer cyfrifiadurol, sain, fideo a llungopïwr.

ch) Sgiliau bysellfwrdd da a gwybodaeth am becynnau TGCh perthnasol.

d) Gwybodaeth am bolisïau a chodau ymarfer perthnasol ac ymwybyddiaeth o ddeddfwriaeth berthnasol.

dd) Y gallu i ymwneud yn dda â phlant.

e) Y gallu i ymwneud yn dda ag oedolion.

f) Y gallu i ddeall rolau rhieni a gofalwyr yn nysgu disgyblion a dangos gallu i gysylltu â nhw yn sensitif ac effeithiol.

ff) Y gallu i arsylwi, monitro a darparu adborth adeiladol ar gynnydd disgyblion.

g) Y gallu i ddarparu gofal personol angenrheidiol i blant gan gynnwys codi a chario a mynd i'r toiled.

ng) Y gallu i beidio â chynhyrfu a bod yn amyneddgar ac yn ddeallus wrth ddelio â phlant.

h) Y gallu i ymdrin ag ymddygiad amhriodol mewn ffordd ddigynnwrf ac anfeirniadol gan ddilyn arweiniad yr ysgol.

i) Y gallu i gwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf yn llwyddiannus yn ôl yr angen.

j) Gallu a pharodrwydd i nodi eich anghenion hyfforddi eich hun a chymryd rhan mewn hyfforddiant.

l) Bod yn gyfrifol am hyrwyddo a diogelu lles plant a phobl ifanc o fewn yr ysgol.